# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Gwener, 18 Tachwedd 2016

Amser: 09.00 - 11.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4043

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Ann Jones AC (Cadeirydd)<br>Jayne Bryant AC<br>Russell George AC<br>John Griffiths AC<br>Mike Hedges AC<br>Huw Irranca-Davies AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Dai Lloyd AC<br>Lynne Neagle AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC<br>David Rees AC<br>Simon Thomas AC |

| | |
|---|---|
| Tystion: | Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru<br>Jo Salway, Llywodraeth Cymru<br>Will Whiteley, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Stephen Boyce (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod (PDF 1MB) Gweld fel HTML (281KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

2.2 Croesawodd y Cadeirydd y Prif Weinidog a'i swyddogion i'r cyfarfod.

## 2 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog

### 2.1 Rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Pumed Cynulliad - Symud Cymru Ymlaen 2016-2021

2.1.1 Bu'r Pwyllgor yn holi'r Prif Weinidog ynghylch rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru.

2.1.2 Gwnaeth y Prif Weinidog rannu â'r Pwyllgor lythyr dyddiedig 14 Gorffennaf 2016 a oedd yn ymdrin ag aelodaeth y Grŵp Diwygio Deddfwriaethol.

### 2.2 Trafodaeth ar Faterion Cyfoes

2.2.1 Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau i'r Prif Weinidog ynghylch materion cyfoes.

2.2.2 Cytunodd y Prif Weinidog i roi nodyn ynghylch y sefyllfa gyfreithiol mewn perthynas â thollau Pont Hafren, yn benodol ynglŷn â'r union adeg y bydd y bont yn cael ei throsglwyddo i berchnogaeth gyhoeddus.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Trafod y Dystiolaeth o'r Sesiwn Flaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn y sesiwn flaenorol a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion.